DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, **Practis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt (IDH – Daliadau Deintyddol Integredig)**

5 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-4734-3266-6
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2

2. Methodoleg ..... 2

3. Cyd-destun ..... 4

4. Crynodeb ..... 5

5. Canfyddiadau ..... 7

   Profiad y Claf ..... 7

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ..... 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 11

   Ansawdd yr Amgylchedd ..... 13

6. Y Camau Nesaf ..... 14

   Atodiad A ..... 15

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt (IDH), yng Nghanolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Glan Irfon, Pendre, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3DG, yn yr ardal ar wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 5 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y Claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr Amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni’r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis

[1]Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae’r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny trwy lythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt (IDH) yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Llanfair-ym-Muallt, Powys. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae IDH yn gwmni mawr sy'n berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis – sydd hefyd yn rheoli dau bractis IDH arall yn ardal Powys (ac o ganlyniad yn rhannu ei hamser rhyngddynt).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau
- Apwyntiadau brys yn ystod oriau agor arferol
- Dannedd gosod
- Coronau a phontydd
- Tynnu dannedd a llenwadau
- Gwynnu dannedd
- Llenwadau gwyn

Mae AGIC yn deall bod Practis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau'r GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis a gofrestrir gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ogystal â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut mae IDH yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru’.

Profiad y Claf

Gwnaethom ddefnyddio holiaduron (a oedd wedi'u dosbarthu cyn yr arolygiad) er mwyn casglu barn cleifion ar y gwasanaeth. Dywedodd cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn derbyn croeso cynnes gan staff y practis pan fyddant yn dod am apwyntiad. Roedd ymatebion hefyd yn dangos bod angen i'r practis wella faint o wybodaeth mae'n ei roi i gleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn neu sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau. Hefyd roedd angen gwella'r system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. **Rydym wedi gwneud tri argymhelliad arfer da yn y maes hwn.**

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod safon dda o gadw cofnodion ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd hefyd yn dangos nad oedd sganiau pelydr-X yn cael eu cyfiawnhau'n gyson na'u cofnodi mewn digon o fanylder.

Gwelsom dystiolaeth bod prosesau dadheintio boddhaol yn cael eu cynnal at ei gilydd, ond nodwyd yr angen am rai gwelliannau i'r prosesau, yn ogystal â bylchau mewn hyfforddiant.

Gwelsom fod system ar waith ar gyfer rheoli'r defnydd o offer radiograffig, ond nid oedd y rhain yn gwbl glir ac nid oedd yn glir pa aelod o staff oedd yn gyfrifol am y maes hwn. **Rydym wedi gwneud saith argymhelliad er mwyn gwella'r maes hwn.**

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ddiweddar mae’r practis wedi cael ei gaffael gan Integrated Dental Holdings (IDH) sy’n gwmni deintyddol corfforaethol. Roedd rheolwr practis newydd a oedd hefyd yn rheoli dau bractis IDH arall. Gwnaethom nodi bod nifer o brosesau roedd rheolwr y practis eisoes wedi'u nodi fel meysydd i'w gwella, ond roeddem yn pryderu nad oedd yr amser roedd hi'n ei dreulio yn y practis hwn yn ddigon er mwyn eu cyflawni.

Gwnaethom nodi bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud o fewn cyfnod byr er mwyn diweddaru'r holl ddogfennaeth a chofnodion pan ddaeth y practis i feddiant IDH. **Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad yn y maes hwn, ac**

**wedi cysylltu ar wahân trwy ein proses gofyn am sicrwydd ar unwaith mewn perthynas ag un argymhelliad ychwanegol brys.**

<u>Ansawdd yr Amgylchedd</u>

Wedi'i leoli o fewn canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd yn Llanfair-ym-Muallt, roedd yr adeilad a'r ystafelloedd triniaeth yn eang, yn lân ac yn daclus. Roedd digon o le parcio y tu allan, a mynediad lefel isel trwy gydol yr adeilad. Mae'r practis yn rhannu man ag ystafelloedd triniaeth eraill yn yr un lle, ac mae'n rhaid gwella'r arwyddion a'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y man deintyddol a'r mannau eraill. **Rydym wedi gwneud un argymhelliad ar gyfer y maes hwn.**

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaethom ddefnyddio holiaduron (a oedd wedi'u dosbarthu cyn yr arolygiad) er mwyn casglu barn cleifion ar y gwasanaeth. Dywedodd cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn derbyn croeso cynnes gan staff y practis pan fyddant yn dod am apwyntiad. Roedd ymatebion yn dangos ei bod yn rhaid i'r practis wella faint o wybodaeth mae'n ei roi i gleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn neu sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau. Hefyd roedd angen gwella'r system ar gyfer casglu adborth gan gleifion.**

Gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron wedi eu hargraffu cyn ein hymweliad arolygu, a chafodd dau ddeg ohonynt eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Derbyniwyd rhywfaint o adborth cadarnhaol yn yr ymatebion iddynt. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn derbyn croeso gan dîm y practis, atebodd pob claf yn unfrydol bod y tîm yn groesawgar bob amser.

Dywedodd saith o'r 20 claf nad oeddent yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Hefyd, pan wnaethom ni ffonio'r practis y tu allan oriau, cawsom nad oedd y neges yn rhoi digon o wybodaeth. Gwnaethom nodi bod hysbysiad ar y wal yn y dderbynfa ac arno rif ffôn uniongyrchol y GIG, ond yn gyffredinol roeddem yn teimlo bod yr arwyddion a'r wybodaeth wedi'u harddangos ar gyfer cleifion yn wael. Trafodir y mater hwn mewn adrannau eraill yn yr adroddiad.

***Argymhelliad***

***Rhaid gwella'r neges y tu allan i oriau er mwyn rhoi'r wybodaeth allweddol ynglŷn ag oriau agor a chyfarwyddyd y tu allan i oriau i gleifion.***

Dywedodd 12 o blith 20 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn. Unwaith eto, gwelsom mai ychydig iawn o wybodaeth oedd wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ac nad oedd y wybodaeth hon yn hawdd ei gweld. Er ein bod yn gallu gweld bod gwybodaeth ynglŷn â'r weithdrefn gwyno wedi'i harddangos ar y wal y tu ôl i ddesg y dderbynfa, ni fyddai cleifion yn gallu gweld yr arwydd. Hefyd, roedd y wybodaeth yn anghywir ac yn cyfeirio at weithdrefnau cwyno Lloegr yn hytrach na'r rhai sydd ar waith yng Nghymru.

***Argymhelliad***

***Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn darparu ac yn arddangos yn glir gwybodaeth allweddol i gleifion ynglŷn â gwybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, a sut i wneud cwyn.***

***Argymhelliad***

***Rhaid adolygu a diwygio'r weithdrefn gwyno er mwyn cyd-fynd ag egwyddorion Gweithio i Wella, a chanllawiau sydd ar waith yng Nghymru.***

Gwnaethom nodi bod llyfr sylwadau y tu ôl i ddesg y dderbynfa, a gwelsom fod rhai cleifion wedi ysgrifennu ynddo. Roedd pob sylwad a welsom yn gadarnhaol, ac roedd un deintydd yn benodol yn cael ei ganmol. Ar wahân i'r dull hwn o gasglu adborth, ni welsom dystiolaeth o unrhyw ddull sefydlog o annog cleifion i roi adborth nac unrhyw ddull o ofyn am adborth yn rheolaidd. Dywedodd rheolwr y practis nad oedd hi'n ymwybodol bod unrhyw holiaduron adborth cleifion wedi cael eu cynnal yn ddiweddar, ac nad oedd yn gwybod am unrhyw gynlluniau ar y gweill i gynnal arolwg o farn cleifion.

***Argymhelliad***

***Rhaid i IDH sicrhau bod systemau sefydlog ar waith er mwyn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd. Hefyd, rhaid i IDH sicrhau bod gan reolwyr practis eu hunain yr awdurdod i gynnal arolygiadau adborth o'r fath, os nad yw hyn yn bolisi gan y cwmni eisoes.***

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod safon dda o gadw cofnodion, ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd hefyd yn dangos nad oedd sganiau pelydr-X yn cael eu cyfiawnhau'n gyson na'u cofnodi mewn digon o fanylder.**

**Gwelsom fod system ar waith ar gyfer rheoli'r defnydd o offer radiograffig, ond nid oedd y rhain yn gwbl glir ac nid oedd yn glir pa aelod o staff oedd yn gyfrifol am y maes hwn.**

**Gwelsom dystiolaeth bod y prosesau dadheintio ar y cyfan yn foddhaol; ond gwnaethom nodi bod angen gwella rhai gweithdrefnau a bod bylchau mewn hyfforddiant.**

Gwnaethom edrych ar bum set o gofnodion cleifion ar gyfer pob un o'r tri deintydd yn y practis. Ar y cyfan roedd y sampl a welsom yn dangos safon dda o gadw cofnodion. Gwelsom ambell achlysur lle nad oedd hanes meddygol cychwynnol, ond yn yr achosion hyn roedd hanesion meddygol diweddar ar gael.

Lle roedd cleifion wedi cael sgan pelydr-X, fel arfer nid oedd y cyfiawnhad dros y pelydr-X, y canfyddiadau clinigol, na'r graddio yn cael eu cofnodi. Hefyd, nid oedd archwiliad er mwyn sicrhau ansawdd y sganiau pelydr-X yn gyffredinol.

***Argymhelliad***

***Rhaid gwella'r safon o gadw cofnodion mewn perthynas â sganiau pelydr-X. Rhaid cyflwyno system er mwyn sicrhau ansawdd cyffredinol o sganiau pelydr-X a wneir yn y practis.***

Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn lân ac yn daclus yn ôl pob golwg. Roedd dau sinc ar gyfer golchi a glanhau offerynnau, ond nid oedd yn glir pa un oedd y man glân a pha un oedd yr un budr. Pe bai staff newydd neu staff asiantaeth yn gweithio yn y practis, byddai'n anodd iddynt wybod ym mha rannau o’r ystafell ddadheintio y dylid prosesu offerynnau glân ac ym mha rannau y dylid prosesu offerynnau budr.

***Argymhelliad***

***Dylid nodi'n glir y mannau yn yr ystafell ddadheintio ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau glân, a'r mannau ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau budr.***

Gwnaethom siarad ag un aelod o staff a ddywedodd wrthym beth oedd y broses ar gyfer dadheintio offerynnau, ond nid oedd unrhyw brotocol wedi'i arddangos er mwyn atgoffa staff neu i ddweud wrth staff newydd beth yw'r drefn. Hefyd, nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw gofnodion a oedd yn dangos bod nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant a oedd yn benodol i'r practis a dadheintio offerynnau.

***Argymhelliad***

***Rhaid arddangos protocolau dadheintio mewn lle amlwg yn y mannau perthnasol. Rhaid cynnal cofnodion o'r holl hyfforddiant mewnol/negeseuon atgoffa mae staff yn eu derbyn mewn perthynas â gweithdrefnau dadheintio.***

Dywedodd staff wrthym nad oeddent yn gwisgo ffedogau untro ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ddeintyddol neu yn ystod gweithdrefnau dadheintio.

***Argymhelliad***

***Yn ystod gweithdrefnau lle y gall hylifau dasgu, dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn, gan gynnwys ffedogau plastig untro.***

Roedd y pedal troed a oedd yn codi caead y bin gwastraff clinigol yn yr ystafell ddadheintio wedi torri, ac roedd yn rhaid codi'r caead â llaw. Mae'r arfer hwn yn cynyddu'r risg o drosglwyddo haint o’r gwastraff i’r dwylo.

***Argymhelliad***

***Rhaid rhoi bin y codir ei gaead â phedal troed yn lle'r un sydd wedi torri yn yr ystafell ddadheintio.***

Unwaith roedd offerynnau wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio, roeddent yn cael eu storio i'w hailddefnyddio. Gwnaethom drafod am faint y byddent yn cael eu cadw cyn y byddai'n rhaid eu hail-sterileiddio, ac rydym wedi gofyn i reolwr y practis egluro'r broses yn unol â'r canllawiau diweddaraf.

Nid oedd proses glir ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio gwasgiadau deintyddol.

***Argymhelliad***

***Rhaid datblygu protocol clir i sicrhau bod gwasgiadau deintyddol yn cael eu glanhau'n ddigonol a bod staff yn dilyn y broses hon.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Daeth y practis i feddiant IDH yn ddiweddar. Hefyd, roedd rheolwr practis newydd a oedd hefyd yn rheoli dau bractis IDH arall. Gwnaethom nodi bod nifer o brosesau roedd rheolwr y practis eisoes wedi'u nodi fel meysydd i'w gwella, ond roeddem yn pryderu nad oedd yr amser roedd hi'n ei dreulio yn y practis hwn yn ddigon er mwyn eu cyflawni.**

**Gwnaethom nodi bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud o fewn cyfnod byr er mwyn diweddaru'r holl ddogfennaeth a chofnodion pan ddaeth y practis i feddiant IDH.**

Gwelwyd bod y practis wedi sefydlu'r holl bolisïau ar gyfer rhedeg y practis o ddydd i ddydd ac ar gyfer defnyddio offer a systemau gwaith yn ddiogel. Ni chrëwyd y dogfennau hyn yn lleol gan staff y practis gan ei bod yn ofynnol i bractisau IDH ddilyn polisïau sydd ar gyfer y cwmni cyfan. Roedd IDH wedi cymryd Practis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt drosodd yn eithaf diweddar (o fewn y 12 mis diwethaf), a dywedodd rheolwr y practis a'r deintyddion eu bod wedi treulio cryn dipyn o amser dros y misoedd blaenorol yn diweddaru dogfennaeth a symud y cofnodion electronig o'r gronfa ddata flaenorol i gronfa ddata'r cwmni newydd. Ar y cyfan, gwelsom fod brand IDH ar y polisïau a oedd ar gael, er nad oedd yr un ohonynt i'w weld wedi'i greu'n lleol. Roedd cofnodion cleifion wedi'u cynnal yn dda ac nid oedd y broses o'u symud o un gronfa ddata i'r llall wedi cael effaith arnynt yn ôl pob golwg.

Roedd yn llai eglur a oedd holl staff y practis wedi llwyddo i ymgyfarwyddo â'r llu o bolisïau a oedd ar gael. Gwelsom rhai enghreifftiau lle roedd staff wedi llofnodi polisïau i ddweud eu bod wedi'u darllen a'u deall. Nodwyd hyn yn benodol ar gyfer staff newydd fel rhan o'u proses sefydlu. Esboniodd rheolwr y practis ei bod yn defnyddio pob cyfarfod staff i drafod polisïau, a gwelsom un enghraifft o gofnodion cyfarfod staff a oedd yn dangos lefel dda o fanylder, gan gyfeirio at y polisi cwmni a oedd wedi cael ei drafod.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddi staff a gweld bod y rhain yn anhrefnus, ac nid oedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth. Nid oedd gan yr un o'r deintyddion gofnodion ar gyfer hyfforddiant ar amddiffyn rhag ymbelydredd, a phan wnaethom holi am hyn, dywedwyd wrthym ei fod wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer yr wythnos ar ôl ein harolygiad.

***Argymhelliad***

***Dylid tacluso a diweddaru ffeiliau staff.***

***Argymhelliad***

***Dylid anfon tystysgrif sy'n cadarnhau bod y deintydd dan sylw bellach wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar amddiffyn rhag ymbelydredd (IMER) at AGIC.***

Nid oedd rheolwr y practis yn gallu dangos dogfennaeth gyfredol ar gynnal a chadw ar gyfer yr awtoclaf (sterileiddiwr), ac roedd ein sgyrsiau gyda hi'n dangos bod rhai pethau'n cael eu cadw gan y brif swyddfa, a rhai pethau yn y practis. Mae AGIC wedi gohebu un uniongyrchol â Phractis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt trwy ein proses gofyn am sicrwydd ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn, ac ar ôl rhywfaint o oedi rydym bellach wedi derbyn sicrwydd bod yr awtoclaf wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

***Argymhelliad***

***Rhaid i IDH sicrhau bod gan bractisau unigol wybodaeth ynglŷn â chanlyniadau'r archwiliadau diweddaraf ar gyfer yr holl waith cynnal a chadw perthnasol, neu gopïau ohoni.***

Gwnaethom nodi bod oergell y tu ôl i'r dderbynfa a oedd yn cael ei defnyddio i storio meddyginiaeth frys yn ogystal â bwyd a llaeth y staff. Dylid cadw meddyginiaeth ar wahân mewn oergell y rheolir ei thymheredd. Hefyd, gwelsom un pecyn o feddyginiaeth nad oedd y dyddiad daw i ben yn glir.

***Argymhelliad***

***Rhaid cadw meddyginiaeth ar wahân mewn oergell y mae ei thymheredd yn cael ei reoli a'i fonitro. Rhaid datblygu system ar gyfer gwirio meddyginiaeth yn yr oergell er mwyn sicrhau nad yw'n mynd heibio i'w dyddiad dod i ben.***

O ystyried nifer yr argymelliadau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod mwy o drefniadau effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg ynglŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Wedi'i leoli o fewn canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd yn Llanfair-ym-Muallt, roedd yr adeilad a'r ystafelloedd triniaeth yn eang, yn lân ac yn daclus. Roedd digon o le parcio y tu allan a mynediad lefel isel trwy gydol yr adeilad. Mae'r practis yn rhannu man cymunedol ag ystafelloedd triniaeth eraill yn yr un lle, ac mae'n rhaid gwella'r arwyddion a'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y man deintyddol a'r mannau eraill.**

Lleolir y practis mewn canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd ar gyfer Llanfair-ym-Muallt. Mae'r practis deintyddol ei hun yn defnyddio tair ystafell o fewn man mawr cymunedol, sydd hefyd â nifer o ystafelloedd triniaeth eraill sy'n cael eu defnyddio ar gyfer clinigau cleifion allanol, triniaeth gan y nyrs gymunedol, podiatreg, dieteteg ac amrywiaeth o glinigau eraill wedi'u trefnu gan y bwrdd iechyd lleol.

Mae digon o le parcio y tu allan i'r adeilad, ac mae pob ystafell driniaeth ar y llawr daear. Mae coridorau a mannau cyhoeddus eang sy'n sicrhau mynediad hygyrch ym mhob man.

Mae’r dderbynfa a'r man aros yn fawr, ac mae digon o le ac awyr ffres. Mae desg y dderbynfa ei hun ond yn llenwi lle bach, ac nid oedd arwyddion amlwg er mwyn gwahaniaethau rhwng y man mawr cymunedol, y man deintyddol na'r ystafelloedd deintyddol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod IDH yn bwriadu rhoi arwyddion brand IDH o gwmpas y dderbynfa, ac rydym yn cydnabod y bydd hyn yn welliant. Fodd bynnag, roedd hysbysfwrdd mawr ar y wal y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, a gallai'r practis fod wedi gwneud gwell defnydd o hwn er mwyn arddangos gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer ei gleifion.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis wneud gwell defnydd o'r hysbysfwrdd y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, a'i ddefnyddio er mwyn arddangos gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i gleifion, fel polisïau a gweithdrefnau perthnasol a gwybodaeth arall.***

Roedd pob un o'r tair ystafell driniaeth i'w gweld yn lân, yn arbennig o daclus, ac yn drefnus. Roedd yr ystafell aros a thai bach y cleifion hefyd i'w gweld yn eithriadol o lân.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion, Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Llanfair-ym-Muallt (IDH)

## Dyddiad yr Arolygiad: 5 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Rhaid gwella'r neges y tu allan i oriau er mwyn rhoi'r wybodaeth allweddol ynglŷn ag oriau agor a chyfarwydd y tu allan i oriau i gleifion. | | | |
| | Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn darparu ac arddangos yn glir gwybodaeth allweddol i gleifion ynglŷn â gwybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau a sut i wneud cwyn. | | | |
| | Rhaid adolygu a diwygio'r weithdrefn gwyno er mwyn cyd-fynd ag egwyddorion Gweithio i | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Wella a chanllawiau sydd ar waith yng Nghymru | | | |
| | Rhaid i IDH sicrhau bod systemau sefydlog er mwyn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd.Hefyd, rhaid i IDH sicrhau bod gan reolwyr practis eu hunain yr awdurdod i gynnal arolygiadau adborth o'r fath, os nad yw hyn yn bolisi gan y cwmni eisoes. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| | Mae'n rhaid gwella'r safon o gadw cofnodion mewn perthynas â sganiau pelydr-X. Mae angen cyflwyno system er mwyn sicrhau ansawdd cyffredinol y sganiau pelydr-X a wneir yn y practis. | | | |
| | Dylid nodi'n glir y mannau yn yr ystafell ddadheintio ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau glân a'r mannau ar gyfer prosesu ac ymdrin ag offerynnau budr. | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid arddangos protocolau dadheintio mewn lle amlwg yn y mannau perthnasol. Rhaid cynnal cofnodion o'r holl hyfforddiant mewnol/negeseuon atgoffa mae staff yn eu derbyn mewn perthynas â gweithdrefnau dadheintio. | | | |
| | Yn ystod gweithdrefnau lle y gall hylifau dasgu, dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn, gan gynnwys ffedogau plastig untro. | | | |
| | Rhaid rhoi bin y codir ei gaead â phedal troed yn lle'r un sydd wedi torri yn yr ystafell ddadheintio. | | | |
| | Rhaid datblygu protocol clir i sicrhau bod gwasgiadau deintyddol yn cael eu glanhau'n ddigonol a bod staff yn dilyn y broses hon. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Dylid tacluso a diweddaru ffeiliau staff. | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | Dylid anfon tystysgrif sy'n cadarnhau bod y deintydd dan sylw bellach wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar amddiffyn rhag ymbelydredd (IMER) at AGIC. | | | |
| | Rhaid i IDH sicrhau bod gan bractisau unigol wybodaeth ynglŷn â chanlyniadau'r archwiliadau diweddaraf ar gyfer yr holl waith cynnal a chadw perthnasol, neu gopïau ohoni. | | | |
| | Rhaid cadw meddyginiaeth ar wahân mewn oergell y mae ei thymheredd yn cael ei reoli a'i fonitro.Rhaid datblygu system ar gyfer gwirio meddyginiaeth yn yr oergell er mwyn sicrhau nad yw'n mynd heibio i'w dyddiad dod i ben. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Dylai'r practis wneud gwell defnydd o'r | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | hysbysfwrdd y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, a'i ddefnyddio er mwyn arddangos gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i gleifion fel polisïau a gweithdrefnau perthnasol a gwybodaeth arall. | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** ..............................................................................................

**Teitl:** ..............................................................................................

**Llofnod:** ..............................................................................................